IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 12 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jacobsen a/ac Wood |

31 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddaeth dim i law.

32 : CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED EIDDO - QUAY STREET NEWS

Ymgeiswyr: Heddlu De Cymru, cynryhiolwyd gan Justin Hardwicke, Tony Bowley a Leah Pollard

Trwyddedai: Mr Naveed, cynrychiolwyd gan Craig Bond

Ar ddechrau'r achosion, dywedodd Ms Pollard ar ran yr Heddlu i'r Heddlu a'r Ymgeisydd gytuno y byddai amodau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith, fel a ganlyn;

1) Gwaherddir y safle rhag gwerthu cwrw, lager neu seidr gyda chynnwys alcohol sy'n uwch na 5.5% ABV.

2) Gwaherddir y safle rhag gwerthu caniau unigol o alcohol.

3) Bydd angen gwerthu'r rhain yng ngrwpiau o bedwar neu fwy.

4) Gwaherddir y safle rhag gwerthu poteli unigol (330ml neu lai) o gwrw, seidr a lager. Bydd angen gwerthu'r rhain yng ngrwpiau o bedwar neu fwy.

5) Gwaherddir y safle rhag gwerthu gwirodydd mewn poteli 20cl neu lai.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Heddlu a ydynt yn credu mai'r Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig sy'n gyfrifol. Dywedodd Mr Tony Bowley fod Mr Naveed bob amser wedi bod ar gael iddynt pan fo angen a'i fod yn byw yng Nghaerdydd, pe bai'n cael ei symud mae posibilrwydd y byddai Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig o bell yn cymryd yr awenau na fyddai'n ddelfrydol.

Dywedodd y Cadeirydd y methwyd cydymffurfio â'r amodau sydd eisoes ar y drwydded felly gofynnodd i'r Ymgeisydd a allai roi sicrwydd y glynid at yr amodau newydd hyn. Esboniodd Mr Naveed ei fod yn gymharol newydd i Gaerdydd ac nad yw wedi profi digartrefedd ac yfwyr stryd yn ei safle blaenorol felly roedd yn gwneud ei orau glas. Ychwanegodd Mr Craig Bond nad yw Mr Naveed wedi dod i'r arfer â'r cwsmeriaid hyn ond ers cymryd yr awenau dros y safle ym mis Mai, fod cynnydd wedi bod o ran cydymffurfio â'r amodau. Ychwanegodd Ms Pollard fod yr holl bartïon yn teimlo y bydd yr amodau yn helpu'n fawr o ran mynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig ag yfwyr stryd a thrwy weithio ar y cyd â'r awdurdodau y byddent yn dechrau mynd i'r afael â'r problemau yng Nghanol y Ddinas.

I gloi, ychwanegodd Mr Bond fod Mr Naveed eisoes wedi gwaredu'r cwrw, lager a seidr cryfder uchel o'i siop.

PENDERFYNWYD – bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i atodi'r amodau canlynol at y drwydded;

1) Gwaherddir y safle rhag gwerthu cwrw, lager neu seidr gyda chynnwys alcohol sy'n uwch na 5.5% ABV.

2) Gwaherddir y safle rhag gwerthu caniau unigol o alcohol.
3) Bydd angen gwerthu'r rhain yng ngrwpiau o bedwar neu fwy.

4) Gwaherddir y safle rhag gwerthu poteli unigol (330ml neu lai) o gwrw, seidr a lager. Bydd angen gwerthu'r rhain yng ngrwpiau o bedwar neu fwy.

5) Gwaherddir y safle rhag gwerthu gwirodydd mewn poteli 20cl neu lai.

33 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni ddaeth dim i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 am